Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Proses Apelio Annibynnol i Ffermwyr a Thirfeddianwyr yng Nghymru dan Reoliadau Asesu’r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 1

2. Beth sy’n dod o dan y Broses Apelio? 1

3. Penderfyniadau sy’n dod o dan y Broses Apelio 2

4. Cael mwy o wybodaeth am benderfyniad 2

5. Cyflwyno Apêl 3

6. Canllawiau i’r Weithdrefn Apelio 5

7. Cais i’r Uchel Lys 7

8. Adolygiad Barnwrol 7

9. Diogelu Data Cyffredinol: Hysbysiad Preifatrwydd 8

10. Cysylltiadau 9


© Hawlfraint y Goron 2022 WG44796 ISBN digidol 978-1-80391-884-6

# 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o broses apelio Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau") Llywodraeth Cymru i ffermwyr a thirfeddianwyr yng Nghymru.

Nodyn pwysig: mae'r canllaw hwn ar gyfer dibenion gwybodaeth yn unig ac nid oes ganddo unrhyw rym cyfreithiol. Awgrymir bod y sawl sy'n bwriadu apelio hefyd yn ymgyfarwyddo â'r Rheoliadau ac yn gofyn am gyngor proffesiynol.

## 1.1 Diben y Broses Apelio

Mae'r broses apelio yn weithdrefn dryloyw a syml sy'n galluogi ymgeisydd i ofyn am adolygiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru a wnaed yn unol â'r Rheoliadau. Caiff Person Annibynnol fel rheol ei benodi i wrando ar yr apeliadau a gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru, gan sicrhau bod gweithdrefn apelio sy'n agored a theg ar gael i unigolion a busnesau.

# 2. Beth sy'n dod o dan y Broses Apelio?

Bydd y broses yn ystyried apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed a hysbysiadau a roddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau Sgrinio a Chydsynio a chyhoeddiad Hysbysiadau Adfer a/neu Atal. Mae gwybodaeth bellach i'w chael yn Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 drwy'r ddolen isod: https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/565/contents?view=plain

Os yw apêl yn ymwneud â grant neu gymhorthdal amaeth neu goedwigaeth arall, cysylltwch â Chanolfan Cyswllt Cwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru (RPW) (manylion yn Adran 10).

## 3. Penderfyniadau sy’n dod o dan y Broses Apelio

Mae’r Rheoliadau yn caniatáu apeliadau yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Phenderfyniad Perthnasol neu Hysbysiad Perthnasol.

Mae Penderfyniad Perthnasol yn unrhyw un o’r canlynol:

- Penderfyniad sgrinio;
- Penderfyniad caniatâd; neu
- Penderfyniad a wnaed o dan baragraff 3 o Atodlen 4 y Rheoliadau.

Mae Hysbysiad Perthnasol yn unrhyw un o’r canlynol:

- Hysbysiad Adfer;
- Hysbysiad Atal;
- Hysbysiad a roddwyd o dan baragraff 5 o Atodlen 4 y Rheoliadau.

Os ydych yn derbyn hysbysiad gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw un o’r uchod, darperir esboniad ysgrifenedig yn nodi pam y gwnaethpwyd y penderfyniad. Bydd y llythyr hefyd yn nodi bod gennych hawl i apelio.

**Er mwyn osgoi amheuaeth, ni ellir apelio yn erbyn y canlynol gan ddefnyddio’r prosesau yn y Rheoliadau:**

- Hysbysiadau Adfer Drafft; a
- Cosbau ariannol a roddir oherwydd bod y Rheoliadau wedi’u torri[1].

## 4. Cael mwy o wybodaeth am benderfyniad

Os nad yw’r rheswm am y penderfyniad yn glir, neu os oes gennych unrhyw ymholiad arall mewn perthynas â’r hysbysiad a dderbyniwch, (e.e. os nad ydych yn deall cynnwys llythyr yn iawn), cysylltwch â’r Swyddog Asesiad Effaith Amgylcheddol sy’n delio gyda’ch achos yn uniongyrchol yn y lle cyntaf. Gall swyddogion roi esboniad llawnach ichi naill ai dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu yn ysgrifenedig, ac efallai y gellir datrys y mater heb fod angen apêl ffurfiol.

[1] Mae’n rhaid cyflwyno apeliadau mewn perthynas â chosbau ariannol o’r fath yn unol ag Yr Amgylchedd a Materion Gwledig – Taliadau Gwledig Cymru – Proses Apelio Annibynnol i Grantiau a Thaliadau Gwledig www.llyw.cymru/apeliadau-grantiau-thaliadau-gwledig-canllaw

## 5. Cyflwyno Apêl

Os ydych yn apelio yn erbyn Penderfyniad Perthnasol, mae'n rhaid i'r cais am apêl gyrraedd Llywodraeth Cymru cyn pen 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y gwnaeth Gweinidogion Cymru'r penderfyniad rydych am apelio yn ei erbyn.

Os ydych yn apelio yn erbyn Hysbysiad Perthnasol, mae'n rhaid i'r cais am apêl gyrraedd Llywodraeth Cymru cyn pen 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn anfon yr hysbysiad.

Yn unol â Rheoliad 30 y Rheoliadau, mae'n rhaid gwneud apêl yn erbyn Hysbysiad Perthnasol neu Benderfyniad Perthnasol i Weinidogion Cymru yn ysgrifenedig.

### Apeliadau yn erbyn Hysbysiadau

Gellir apelio yn erbyn Hysbysiad Perthnasol ar sail unrhyw un o'r canlynol:

- nad oedd y pŵer gan Weinidogion Cymru i roi'r hysbysiad, neu i gynnwys amod penodol ynddo; neu
- bod rhyw afreoleidd-dra, diffyg neu gamgymeriad pwysig wedi digwydd yn yr hysbysiad neu mewn cysylltiad ag ef;
- neu fod unrhyw rai o ofynion yr hysbysiad yn afresymol.

### Noder:

- Wrth apelio yn erbyn Hysbysiad Atal, bydd yr hysbysiad yn weithredol hyd nes bydd yr apêl wedi'i phennu.
- Wrth apelio yn erbyn Hysbysiad Adfer, ni fydd yr hysbysiad yn dod i rym hyd nes bydd yr apêl wedi'i phennu.

### Apeliadau yn erbyn Penderfyniadau

Gellir gwneud apêl yn erbyn Penderfyniad Perthnasol lle:

- mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried cais sgrinio ac wedi gwneud y penderfyniad neu wedi ystyried cymryd y penderfyniad bod y prosiect yn brosiect sylweddol; neu
- mae Gweinidogion Cymru wedi gwrthod cais am ganiatâd ar gyfer prosiect sylweddol; neu
- mae'r unigolyn perthnasol wedi derbyn penderfyniad dan baragraff 3 o Atodlen 4 y Rheoliadau.

### Sut i apelio

Os ydych yn dymuno apelio, mae'n rhaid i chi wneud hynny'n ysgrifenedig, ac mae'n rhaid:

- cynnwys copi o'r hysbysiad neu'r penderfyniad yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn;
- nodi pam eich bod yn apelio a chynnwys holl fanylion y dystiolaeth yr ydych yn bwriadu dibynnu arni; a
- anfon y cyfan i Weinidogion Cymru cyn pen 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn anfon yr Hysbysiad Perthnasol neu'r Penderfyniad Perthnasol y mae'r apêl yn ymwneud ag ef.

Mae'n rhaid i gais yr apêl hefyd:

- Nodi ar ba ffurf yr hoffech i'ch apêl ddigwydd. Gallwch nodi y byddai'n well gennych un o'r canlynol:

  (i) sylwadau ysgrifenedig;

  (ii) gwrandawiad llafar; neu

  (iii) ymchwiliad lleol.

- Nodi a ydych eisiau i'r apêl gael ei hystyried yn Gymraeg neu Saesneg.

Noder os gwelwch yn dda, er y bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried ar ba ffurf yr hoffech i'ch apêl ddigwydd, mae'r hawl gan Weinidogion Cymru bennu ar ba ffurf y bydd trafodion yr apêl yn digwydd.

Dylai'r sail ar gyfer yr apêl fod mor gynhwysfawr â phosibl. Dylech gynnwys unrhyw dystiolaeth yr hoffech iddi gael ei hystyried – e.e. ffotograffau, adroddiadau arbenigol a/neu unrhyw ddogfennau ategol eraill.

Dylid anfon yr apêl gyflawn ac unrhyw ddogfennau ategol at:

Uned Strategaeth a Pholisi
Is-adran Amaeth – Cynaliadwyedd a Datblygu
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod Wells
Powys LD1 5HA

### Noder

- Ni chaiff apeliadau a gyflwynir i Weinidogion Cymru ar ôl y cyfnod apelio 28 diwrnod eu derbyn.

Caiff unrhyw wybodaeth a gyflwynir ei thrin yn unol â Pholisi Preifatrwydd Gweinidogion Cymru (gweler adran 9 isod).

## 5.1 Costau

Nid oes rhaid i chi dalu ffi i gael mynediad i'r broses apelio.

Fodd bynnag, os ydych yn dymuno penodi cynrychiolydd cyfreithiol a/neu dystion arbenigol i ymddangos yn y gwrandawiad, bydd rhaid i chi wneud hynny ar eich cost eich hun.

Bydd partïon apêl fel rheol yn talu eu costau eu hunain. Fodd bynnag, gall unrhyw barti wneud cais am gostau os ydynt yn ystyried bod y parti arall wedi ymddwyn yn afresymol. Mae dyfarniad costau, lle y gellir cyfiawnhau hynny, yn orchymyn y gellir ei orfodi yn y llysoedd. Mae'n nodi bod yn rhaid i un parti dalu i'r parti arall y costau, yn rhannol neu'n llawn, a ddaeth i'w rhan yn ystod y broses apelio.

Fel enghraifft, os yw parti yn methu â mynychu gwrandawiad heb reswm da, neu'n peri bod yn rhaid gohirio gwrandawiad oherwydd i dystiolaeth gael ei hanfon yn hwyr, mae Gweinidogion Cymru'n debygol o wneud cais i'w costau gael eu talu'n llawn gan y parti sydd ar fai.

## 6. Canllawiau i'r Weithdrefn Apelio

Mae'r Rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru benodi person annibynnol i ystyried apeliadau ar ran Gweinidogion Cymru (y person a benodir). Bydd Gweinidogion Cymru fel rheol yn penodi'r Arolygiaeth Gynllunio i gyflawni'r rôl hon.

Pan fydd Gweinidogion Cymru wedi derbyn hysbysiad o apêl, byddwch yn derbyn amserlen o'r camau y mae'n rhaid eu cynnal a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â hynny. Bydd y person a benodir yn gosod y rhain fesul achos, fodd bynnag, rhoddir enghreifftiau dangosol isod.

Byddwch yn gallu tynnu eich apêl yn ôl ar unrhyw adeg cyn y bydd Gweinidogion Cymru wedi gwneud penderfyniad. I dynnu eich apêl yn ôl, mae'n rhaid i chi roi rhybudd ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

### Sylwadau Ysgrifenedig

- Bydd yr amserlen yn nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol yn y broses hon. Fel rheol, rydych yn debygol o gael 6 wythnos i gyflwyno eich datganiad achos manwl (gan gynnwys yr holl dystiolaeth yr ydych am iddi gael ei hystyried er mwyn ategu eich achos) ynghyd â'r sail ar gyfer eich apêl.
- Bydd Gweinidogion Cymru fel rheol yn cael 4 wythnos i ddarparu eu datganiad achos mewn ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth yr hoffent iddi gael ei hystyried er mwyn ategu eu hachos.
- Bydd y person a benodir wedyn yn gwneud argymhelliad, fel rheol cyn pen 8 wythnos ar ôl i'r holl ddogfennau sy'n ofynnol gael eu cyflwyno. Bydd Gweinidogion Cymru wedyn yn ystyried yr argymhelliad ac yn rhoi gwybod i'r Apelydd beth yw'r penderfyniad cyn gynted â phosibl.

### Gwrandawiad Llafar/Ymchwiliad Lleol

- Mae gwrandawiad llafar yn gyfle i chi gyflwyno eich achos i'r person a benodir (fel rheol Arolygwr o'r Arolygiaeth Gynllunio) gan nodi pam eich bod yn credu bod yr hysbysiad neu benderfyniad perthnasol yn anghywir.
- Bydd yr amserlen yn nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol yn y broses hon. Fel rheol, rydych yn debygol o gael 6 wythnos i gyflwyno eich datganiad achos manwl (gan gynnwys yr holl dystiolaeth yr ydych am iddi gael ei hystyried er mwyn ategu eich achos) ynghyd â'r sail ar gyfer eich apêl.
- Bydd Gweinidogion Cymru fel rheol yn cael 4 wythnos i ddarparu eu datganiad achos mewn ymateb, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth yr hoffent iddi gael ei hystyried er mwyn ategu eu hachos.
- Yn achos ymchwiliadau lleol, bydd angen cyflwyno datganiadau tystion a datganiad o dir cyffredin. Mae'n bosibl i'r person a benodir a fydd yn cynnal yr ymchwiliad (fel rheol Arolygwr o'r Arolygiaeth Gynllunio) gyhoeddi gwŷs i unrhyw berson yn nodi bod yn rhaid iddynt fynychu. Mae methu â mynychu ar ôl derbyn gwŷs yn gallu arwain at erlyniad.
- Mae ymchwiliadau lleol yn fwy ffurfiol na gwrandawiadau llafar ac yn golygu bod modd croesholi partïon. Mae yna nifer o ofynion penodol sydd y tu hwnt i gwmpas y canllawiau hyn. Argymhellir yn gryf bod apelydd yn gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol cyn dewis cael apêl ar ffurf ymchwiliad lleol.
- Rhoddir i'r holl bartïon o leiaf 6 wythnos o rybudd o ddyddiad, amser a lleoliad y gwrandawiad llafar neu'r ymchwiliad lleol, ynghyd ag enw'r person a benodir ac a fydd yn arwain y gwrandawiad llafar neu'r ymchwiliad lleol.

- **Bydd y gwrandawiad llafar neu'r ymchwiliad lleol yn agored i'r cyhoedd a rhoddir rhybudd i'r cyhoedd nid llai na 21 diwrnod cyn y bydd y gwrandawiad neu'r ymchwiliad lleol yn digwydd.**
- Bydd y naill barti a'r llall yn derbyn copïau o'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r achos cyn y gwrandawiad neu ymchwiliad.
- Mae'r Rheoliadau'n nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru bennu sut ddylid hysbysebu gwrandawiad yr apêl yn gyhoeddus. Gallai hyn gynnwys gosod rhybudd o'r apêl yn y cyfryngau lleol/cenedlaethol a/neu ar wefan Llywodraeth Cymru. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr ac mae'n bosibl y bydd amgylchiadau unigol bob apêl yn pennu'r angen i hysbysebu mewn modd arall.
- Cynhelir y gwrandawiad/ymchwiliad lleol mewn lleoliad sydd mor agos at safle'r apêl ag sy'n bosibl. Mae'r gwrandawiad/ymchwiliad lleol fel rheol yn cynnwys cyflwyniadau llafar ac yna ymweliad safle (os oes angen un). Cynhelir gwrandawiadau fel rheol rhwng 10am a 5pm. Mae'n bosibl i ymchwiliadau lleol ddigwydd dros sawl diwrnod.
- Mae gwrandawiad llafar yn llai ffurfiol nag ymchwiliad cyhoeddus, a bydd ar ffurf trafodaeth dan arweiniad y person a benodir a fydd yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd. Bydd ymchwiliad lleol ar ffurf cyflwyniadau ffurfiol a chwestiynu tystion. Dylid nodi bod y gwrandawiad llafar neu'r ymchwiliad llafar yn agored i unrhyw aelod o'r cyhoedd all fod â diddordeb yn yr achos.
- Os oes angen ymweliad safle, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n bresennol yn darparu ac yn cynnal y gweithdrefnau bioddiogelwch angenrheidiol.

## 6.1 Ar ôl y Gwrandawiad neu Ymchwiliad Lleol

- Ar ôl i'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad ddod i ben, bydd y person a benodir yn llunio ac yn cyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru. Bydd yr adroddiad yn cynnwys casgliad ac yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru ynghylch sut ddylid penderfynu ar yr apêl.
- Ar ôl ystyried yr adroddiad, bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad terfynol ar ganlyniad yr apêl.
- Bydd Gweinidogion Cymru yn hysbysu holl bartïon yr apêl o'r canlyniad terfynol yn ysgrifenedig ynghyd â chopi o adroddiad y person a benodir.

## 7. Cais i'r Uchel Lys

Os ydych chi, ar ôl i'r broses apelio ddod i ben, yn anfodlon gyda phenderfyniad Gweinidogion Cymru nad yw prosiect yn brosiect sylweddol neu'r penderfyniad i roi caniatâd ar gyfer prosiect sylweddol, gallwch wneud cais i'r Uchel Lys am orchymyn i ddiddymu'r penderfyniad.

Mae'n bosibl i'r Uchel Lys ddiddymu penderfyniad a grybwyllir uchod os yw'n fodlon:

(a) nad yw'r penderfyniad wedi'i wneud yn gyfreithlon; neu

(b) bod buddiannau'r person sydd wedi gwneud cais i'r llys wedi'u niweidio'n sylweddol gan fethiant i gydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill y Rheoliadau hyn.

Mae'n rhaid gwneud cais i'r Uchel Lys cyn pen 6 wythnos ar ôl dyddiad y mae'r penderfyniad wedi'i:

(a) nodi yn y gofrestr yn unol â rheoliad 7(6)(b) o'r Rheoliadau; neu

(b) cyhoeddi'n unol â rheoliad 18(b) y Rheoliadau.

Mae'n bosibl i'r Uchel Lys, drwy orchymyn interim, hyd nes y gwneir penderfyniad ar gais dan y Rheoliadau, ohirio gweithrediad y penderfyniad ar unrhyw delerau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

## 8. Adolygiad Barnwrol

Os ydych chi, ar ôl y broses apelio, yn credu bod y penderfyniad mewn perthynas â mater nad yw wedi'i gynnwys yn adran 7 uchod, wedi'i wneud yn anghyfreithlon (er enghraifft, bod Gweinidogion Cymru wedi ymddwyn yn afresymegol, yn anghyfreithlon neu'n groes i'r gweithdrefnau), yna mae'n bosibl y byddwch am ystyried gofyn am ganiatâd i adolygu'r penderfyniad yn farnwrol. Mae arweiniad pellach ar adolygiad barnwrol ar gael fan hyn: https://www.judiciary.uk/you-and-the-judiciary/judicial-review/

Noder os gwelwch yn dda nad yw'r weithdrefn adolygiad barnwrol yn caniatáu i'r Llys roi rhyddhad rhag penderfyniad penodol yn unig oherwydd ei fod yn anghytuno gyda rhinweddau'r penderfyniad gwreiddiol. Ni ellid ychwaith ddisodli'r penderfyniad gwreiddiol gyda phenderfyniad y Llys.

Mae'n rhaid gwneud cais am adolygiad barnwrol yn ddi-oed, ac ymhob achos cyn pen 3 mis ar ôl y dyddiad y cododd y seiliau dros y cais yn y lle cyntaf.

## 9. Diogelu Data Cyffredinol: Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth a rowch yn eich apêl. Mae'n esbonio hefyd sut bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'r data personol a ddarperir gyda'ch cais a'ch hawliau dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Rheolydd data'r wybodaeth hon yw Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Manylion cyswllt swyddog diogelu data'r wybodaeth honno yw:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ
E-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

### 9.1 Hawliau o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Mae'r GDPR yn rhoi hawliau i unigolion mewn perthynas â'r data personol a brosesir amdanynt.

Mae'r hawliau hynny'n cynnwys:

- yr hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn);
- yr hawl i ofyn a chael copïau o'r data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru gadw peth data weithiau neu wrthod darparu copïau;
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i rwystro neu gyfyngu Llywodraeth Cymru rhag prosesu data personol;
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir;
- yr hawl, mewn rhai amgylchiadau, i gael data wedi'u dileu (neu eu hanghofio).

Os hoffech arfer unrhyw un o'ch hawliau o dan GDPR, dylech gysylltu â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad a ddarperir ar ddechrau'r hysbysiad hwn. Mae gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r hawliau hyn i'w chael ar dudalen gwefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n ymwneud â Hawliau Unigolion yn https://cy.ico.org.uk/.

### 9.2 Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'ch gwybodaeth chi

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn galluogi'r cyhoedd i ofyn am gael gweld yr wybodaeth sydd gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Gallai aelod arall o'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth amdanoch chi fel rhan o gais rhyddid gwybodaeth. Byddem yn cysylltu â chi i wybod eich barn ynglŷn â hyn cyn datgelu unrhyw ddata personol wrth ymateb i gais o'r fath.

### 9.3 Codi Pryderon

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y modd gaiff eich data personol ei drin, byddem yn gofyn i chi godi'r pryderon hyn yn uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf ar Linell Gymorth Cyswllt Cwsmeriaid 0300 062 5004 neu gallwch gysylltu â'r Tîm Asesiad Effaith Amgylcheddol yn EIA.Unit@llyw.cymru.

Mae hawl gan unigolion hefyd i godi pryderon gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gyfrifol am orfodi a goruchwylio materion diogelu data. Mae gwybodaeth bellach ar gael ar y wefan: https://cy.ico.org.uk/.

## 10. Cysylltiadau

Taliadau Gwledig Cymru
Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid
Cysylltwch â ni drwy e-bost dan ddefnyddio eich cyfrif RPW Ar-lein

Os nad oes gennych gyfrif RPW Ar-lein, ffoniwch 0300 062 5004

Neu gallwch ysgrifennu at yr Is-adran Amaeth – Cynaliadwyedd a Datblygu
Llywodraeth Cymru
Spa Road East
Llandrindod Wells
Powys
LD1 5HA

E-bost: EIAApeliadau@llyw.cymru